# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU

**DYDD** Mawrth, 8 Mai 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** D.M. Jenkins (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. Gravelle, Rheolwr Gwasanaethau Refeniw
A Thomas, Rheolwr Budd-daliadau Treth y Cyngor
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Gyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyddin:10.00 am - 10.20 am**

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 27 MAWRTH 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2018, gan ei fod yn gywir.**

**3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**4. TRETHI ANNOMESTIG - GOSTYNGIADAU YN ÔL DISGRESIWN**

**Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth oedd yn fodd i adnabod unigolion oedd yn agored i dalu'r Dreth Gyngor. Er y byddai datgelu'r adroddiad i'r cyhoedd yn hybu atebolrwydd o ran cyllid cyhoeddus, byddai hefyd yn datgelu gwybodaeth ariannol gyfrinachol. Felly, ar ôl pwyso a mesur y mater, yr oeddid yn barnu bod y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd.**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol gais am ostyngiad i'r dreth o dan ddarpariaethau Deddf Lleoliaeth 2011 a oedd yn diwygio Adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

**PENDERFYNWYD, mewn perthynas â chais cyfeirnod 80022788X, ganslo'r tâl o £1,440.02.**

**5. TRETH Y CYNGOR - GOSTYNGIADAU YN ÔL DISGRESIWN**

**Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion oedd yn agored i dalu'r Dreth Gyngor. Er y byddai datgelu'r adroddiad i'r cyhoedd yn hybu atebolrwydd o ran cyllid cyhoeddus, byddai hefyd yn datgelu gwybodaeth ariannol gyfrinachol nad oedd yn eiddo i'r cyhoedd ac na fyddai'n cael ei datgelu fel rheol i drydydd partïon. Felly, ar ôl pwyso a mesur y mater, yr oeddid yn barnu bod y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar y ceisiadau oedd wedi dod i law am ostyngiadau yn ôl disgresiwn i'r Dreth Gyngor.

Nodwyd bod rheoliadau wedi eu cyflwyno, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2004, a roddai bwerau disgresiwn i Awdurdodau Lleol roi disgownt neu ostyngiad a benderfynwyd yn lleol o ran y Dreth Gyngor, a bod y rhain yn ychwanegol at y gostyngiadau statudol presennol.

**PENDERFYNWYD**

**5.1 yn achos cais cyfeirnod 60331282, bod disgownt yn ôl disgresiwn yn cael ei gymeradwyo i ymestyn, i bob diben, eithriad Dosbarth A am 6 mis arall hyd at 25 Gorffennaf 2018 neu'r dyddiad y caiff yr ystlumod eu symud, os yw'n gynharach;**

**5.2 yn achos cais cyfeirnod 60327516, bod y tâl o 50% yn cael ei hepgor hyd at 30 Medi 2018;**

**5.3 yn achos cais cyfeirnod 60342506 a 60332441, bod yr ôl-ddyledion yn cael eu dileu;**

**5.4 yn achos cais cyfeirnod 60283836, bod dim rhagor o ddisgownt yn ôl disgresiwn yn cael ei roi;**

**5.5 yn achos cais cyfeirnod 60325194, bod y tâl cyfan am y cyfnod o absenoldeb gorfodol [1 Gorffennaf 2017 tan 31 Mawrth 2018] yn cael ei hepgor.**

______________________________ __________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DYDDIAD**